01/09/14
Brîff UCAC Briefing

# Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol 2014: Adborth UCAC

## Cyflwyniad

Yn dilyn ail rownd y profion darllen a rhifedd cenedlaethol, a gynhaliwyd rhwng 7-13 Mai 2014, holodd UCAC barn aelodau ynghylch gwahanol agweddau o'r profion.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r prif themau a amlygwyd yn yr ymatebion hynny. Cyflwynwn yr adborth hwn er mwyn ceisio gwella ar y drefn ar gyfer profion y flwyddyn nesaf.

### Cefndir

Cynhaliwyd y profion rhwng 7-13 Mai 2014 ar gyfer plant ym Mlynyddoedd 2-9.

Eleni am y tro cyntaf, cynhaliwyd prawf Rhifedd: Rhesymu yn ogystal â'r prawf Rhifedd: Gweithdrefnol, a'r prawf darllen.

Mae dysgwyr sy'n dilyn rhaglen astudio Cymraeg yn sefyll prawf darllen Saesneg yn ogystal â Chymraeg ym Mlynyddoedd 4-9.

### Cyfnod Sylfaen

Mae teimlad cryf yn parhau eleni nad yw'r profion yn addas ar gyfer plant yn y Cyfnod Sylfaen, ac yn sicr ddim ar gyfer Blwyddyn 2:

- nid yw'r profion yn gydnaws â methodoleg ac athroniaeth y Cyfnod Sylfaen
- maent yn tanseilio hyder y plant ac yn eu digalonni

> "Teimlaf dros y plant yn enwedig y rhai llai hyderus, mae'n chwalu eu hunan hyder i sefyll ARHOLIAD yn saith mlwydd oed gan gofio bod y profion hyn yn digwydd tua hanner ffordd trwy'r flwyddyn."

### Lefel yr Her

Yn gyffredinol, teimlir bod gormod o waith i'w gyflawni o fewn y cyfyngiadau amser, yn enwedig yn y profion sector cynradd.

> "Mae gen i ddosbarth sy'n cynnwys llawer o blant sy'n dda ym Mathemateg, ond buont yn gweithio '*flat out*' am yr holl amser hyd at y funud olaf. Ni chafon nhw gyfle i wirio eu gwaith. Rydw i'n pwysleisio gwirio gwaith i'm dysgwyr, ac yn siomedig nad oedd hyn yn bosib oherwydd, yn fy marn, doedd hanner awr ddim yn amser synhwyrol i'r profion yma. Hyn oedd y farn ar draws y blynyddoedd yn ein hysgol ni."

### Gwahaniaethu/Graddio cwestiynau

Roedd barn gref ymhlith yr ymatebion eto eleni bod y profion yn rhy heriol i'r plant gwanaf a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac nad oes ystyriaeth i hyn yn nyluniad y profion:

- nid oes gwahaniaethu/graddio o fewn y profion, hynny yw, nid ydynt yn dechrau gyda chwestiynau rhwyddach a symud at yr anoddach
- golyga hyn brofiad digalon iawn i blant llai abl sy'n diflasu o'r cychwyn cyntaf
- gall tanseilio hyder a chreu ymagwedd negyddol at addysg, neu'r pwnc penodol

> "Trwy'r flwyddyn mae pwysau ar athrawon i wahaniaethu. Oes pwynt i ni neud hyn os pryd deuwn ni at y profion mae'r plant gallu is dal yn gorfod eistedd yr un profion â'r blant gallu

uwch? Teimlais yn flin iawn dros plant llai galluog yn ystod amserlen profion."

### Natur y cwestiynau/cynnwys/fformat

- Roedd y rheidrwydd i droi nôl a mlaen rhwng tudalennau'n creu anawsterau, yn enwedig i blant â dyslecsia.
- Mynegwyd pryder am wahaniaethau rhwng cwestiynau ar bapur prawf 'arferol' a'r papur prawf print mawr cyfatebol, gan gynnwys y ffaith ei fod yn ddu a gwyn.
- Roedd amryfusedd ym mhrawf Rhifedd: Rhesymu Blwyddyn 8 ble roedd angen cyfrifo pris am nifer y llythrennau mewn gair penodol, sef 'you' yn y Saesneg a 'chi' yn Gymraeg. Roedd y defnydd o lythyren 'ddwbl' sef 'ch' yn achosi dryswch ac amwysedd. Dylid rhagweld ac osgoi y math hyn o ddryswch wrth lunio'r profion.

### Gweinyddu

- Nid yw 5 diwrnod yn ddigon hir ar gyfer ysgolion Cymraeg sy'n gorfod gweinyddu 4 prawf yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3.
- Nid oedd y wybodaeth ar gyfer rhieni wedi cyrraedd ysgolion yn ddigon cynnar:
  - dylai'r wybodaeth hon fynd allan yn y tymor cyntaf neu ar ddechrau'r ail dymor
- Mae llawer gormod o anghysondeb o ysgol i ysgol o ran gweinyddu'r profion:
  - mae angen cyfarwyddiadau cliriach
  - awgrymwyd y gallai penaethiaid gyfnewid neu weithio mewn ysgol gwahanol am gyfnod y profi er mwyn sicrhau bod y profion yn cael eu gweinyddu yn unol â'r canllawiau

"Rwyf newydd fy mhenodi'n bennaeth ac wedi dilyn y canllawiau gweinyddu'n dynn. Cefais fy siomi'n fawr felly i glywed gan athrawon mewn ysgolion eraill eu bod wedi caniatáu amser ychwanegol i'r disgyblion "i fod yn deg gyda'r plant"! Byddai disgyblion fy ysgol i wedi elwa'n fawr o gael dros hanner awr ychwanegol."

"Gan nad oes cysondeb wrth weinyddu'r profion, annheg yw cymharu ysgolion â'i gilydd. Ar hyn o bryd does gen i ddim ffydd yn y system felly byddaf yn rhoi mwy o ffocws ar asesiadau eraill yr ysgol eleni, wrth ddadansoddi data a hunanwerthuso."

### Marcio

Roedd Llywodraeth Cymru wedi datgan y byddai'r profion Rhifedd: Rhesymu yn cael eu marcio'n allanol. Ond ni ddigwyddodd hynny. Yn hwyr yn y dydd, cafodd ysgolion wybod y byddent yn gyfrifol am farcio'r rhain yn ogystal â'r gweddill, ac y byddai gwahoddiad i enwebai o bob ysgol fynychu digwyddiad 'marcio dan arweiniad' rhanbarthol.

Mynegwyd barn gwbl glir gan aelodau UCAC y dylid marcio'r profion yn allanol gan arbenigwyr:

- er mwyn rhoi statws i'r profion
- i osgoi llwyth gwaith afresymol
- i osgoi anghysondeb o ysgol i ysgol ynghylch pwy sy'n ysgwyddo'r gwaith a beth yw'r telerau (mewn rhai ysgolion talwyd £0.30 y papur, mewn eraill £0.60, tra rhoddwyd amser digyswllt mewn eraill; cyflawnwyd y gwaith gan gymysgedd o gymhorthyddion, athrawon a phenaethiaid)

Dylid penderfynu ar y trefniadau blwyddyn ymlaen llaw a chadw atynt.

### Canlyniadau

Cafodd y canlyniadau eu rhyddhau ar 15 Gorffennaf – diwrnodau yn unig cyn diwedd y flwyddyn ysgol.

Teimlad arweinwyr ysgol oedd bod diffyg cyfathrebu clir ynghylch union ddyddiad rhyddhau'r canlyniadau. Er bod negeseuon yng nghylchlythyr DYSG, ni fu cyfathrebu uniongyrchol gyda'r arweinwyr ysgol eu hunain.

Mae teimlad clir bod y canlyniadau'n cael eu rhyddhau'n rhy hwyr:

- nid oes modd i athrawon gyfeirio atynt yn eu hadroddiadau blynyddol i rieni
- gall fod yn broblem anfon y canlyniadau at rieni mor agos at ddiwedd y tymor
- o ran trefnu cymorth i plant sydd angen ymyraethau llythrennedd neu rifedd, mae'r canlyniadau'n rhy hwyr i fod o gymorth

"Fy nghyfrifoldeb i fel SENCo yw trefnu cymorth ar gyfer plant sydd angen

ymyraethau rhifedd neu llythrennedd. Nid ydy'r profion o fudd i mi achos nid ydym yn derbyn canlyniadau'r dysgwyr tan ddiwrnodau olaf y tymor. Mae hyn yn rhy hwyr i ddadansoddi, pennu pa blant sydd angen cymorth, a threfnu amserlenni a darpariaeth cyn mis Medi. Oherwydd hyn, rydyn ni fel ysgol yn dal i gwblhau asesiadau mewnol llythrennedd a rhifedd sy'n fwy dibynadwy a lle gallen ni dderbyn canlyniadau'n syth."

Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth ysgolion, ac wrth rieni, y byddent yn darparu sgoriau safonedig a sgoriau cynydd. Adeg cyhoeddi'r canlyniadau, rhoddwyd gwybod mai sgoriau safonedig yn unig fyddai'n cael eu darparu eleni. Roedd hyn yn siom i aelodau UCAC:

- am fod teimlad mai'r sgôr cynnydd sydd fwyaf defnyddiol
- am fod disgwyl i ysgolion cyflawni eu hochr nhw o'r fargen o ran gweinyddu a marcio'r profion, a bwydo'r canlyniadau'n brydlon i'r Llywodraeth, ond nad yw'r Llywodraeth wedi cyflawni ei hochr hithau

## Argymhellion

- Cael gwared ar y profion yn y Cyfnod Sylfaen; pan fydd Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar (EYDAF) yn ei le, fe ddylai fod yn ddigonol ar ei ben ei hun
- Cyflwyno arddull gwahaniaethol/graddedig i'r profion (h.y. sicrhau bod y cwestiynau'n mynd yn raddol anoddach drwy'r papur) er mwyn rhoi pwynt cychwyn cadarn i bob dysgwr
- Sicrhau gwell cybwysedd rhwng hyd y profion a faint o waith sydd i'w gyflawni o fewn yr amser
- Ystyried sut i sicrhau gwell cysondeb o ran gweinyddu'r profion, gan gynnwys canllawiau fwy penodol
- Sicrhau bod deunydd yn cyrraedd ysgolion yn fwy prydlon (deunydd ar gyfer rhieni; canllawiau gweinyddu)
- Marcio'r profion yn allanol
- Rhyddhau'r canlyniadau'n gynharach

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru